

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i'r Cabinet

Dyddiad y cyfarfod:	18 Ionawr 2022
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Addysg
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams
Swyddog Cyswllt:	Garem Jackson, Pennaeth Addysg

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau fy nghyd-aelodau ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni yn y meysydd yr wyf i'n gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Addysg. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd hyd yma yn 2021-22 yn erbyn addewidion Cynllun y Cyngor 2018-23; materion a lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.
- 1.2 Hoffwn nodi bod y materion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd Herio Perfformiad Adrannol, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu.
- 1.3 Mae'r prosiectau blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor yn symud ymlaen ac ar y trywydd i gyflawni yn erbyn ein addewidion a'n pwrpas er rhai heriau'r farchnad adeiladu. Mae rhai materion eraill wedi codi i sylw drwy ein herio perfformiad, ynghyd â rhai datblygiadau cenedlaethol sydd yn debygol o ddylanwadu ar ein gwaith i'r dyfodol. Rwyf yn arbennig o hapus gyda pherfformiad yr Adran, a byddaf yn ymhelaethu ar y cynnydd yn yr adroddiad.

2. PROSIECTAU CYNLLUN Y CYNGOR 2018-2023

- 2.1 Nodir isod y cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma yn erbyn prosiectau blaenoriaeth yr Adran. Mae'r blaenoriaethau hyn yn mynd i'r afael gyda phrif risgiau'r Adran, ynghyd â buddsoddi i addasu ysgolion, neu adeiladu ysgolion newydd er mwyn i blant a phobl ifanc Gwynedd gael eu haddysgu yn yr amgylchedd dysgu gorau posibl. Yn gyffredinol, teimlaf fod pob prosiect ar hyn o bryd yn mynd i'r cyfeiriad cywir yn erbyn yr addewidion yr ydym wedi eu gwneud yng Nghynllun y Cyngor.

Rhaglen Ysgolion 21 Ganrif – Pob disgybl yn cael y cyfle i gyflawni ei botensial

2.2 Dalgylch Bangor

Er gwaethaf y pandemig rwy'n hynod o falch y bu i adeilad newydd Ysgol y Garnedd i hyd at 420 o ddysgwyr agor yn Hydref 2020. Mae'r prosiect wedi ennill dwy wobwr Rhagoriaeth Mewn Adeiladwaith yng Nghymru 2021.

Mae Ysgol y Faenol hefyd yn y broses o gael estyniad sylweddol i gartrefu hyd at 315 o ddysgwyr . Mae'r amserlen wedi ei effeithio gan y pandemig, ond mae rhannau sylweddol o'r estyniad wedi ei adeiladu erbyn hyn, a bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd Tymor y Gwanwyn 2022.

Mae dosbarth newydd wedi ei ychwanegu i Ysgol Glancegin ac wedi ei gwblhau'n barod at ddefnydd yr ysgol ar gychwyn y flwyddyn addysgol hon.

Mae gwaith dichonoldeb cychwynnol wedi'i gwblhau i adnabod anghenion Ysgol Ein Harglwyddes, ac mae cytundeb i leoli'r ysgol newydd ar safle Ysgol Glanadda (sydd bellach wedi cau) ac mae'r lleoliad hwn yn cyd-fynd gyda dyheadau'r gymuned.

Mae cyflwr adeilad ac amgylchedd dysgu presennol Ysgol Tryfan ym Mangor yn wael, ac o ganlyniad rydym ar fin cychwyn y broses o ystyried y cyfleoedd posib ar gyfer sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf, gan sicrhau dilyniant priodol i'r buddsoddiad sydd eisoes wedi ei wneud yn yr ysgolion cynradd yn ardal Penrhosgarnedd o'r ddinas.

2.3 Dalgylch Cricieth

Rwy'n hynod o falch fod y Cabinet wedi cefnogi'r bwriad i gynyddu capasiti Ysgol Trefarthyr i 150 o ddysgwyr, ac adeiladu ysgol newydd yn sgil cyflwr gwael yr adeilad presennol. Fel rhan o'r broses o gyflwyno cais cynllunio ar gyferf adleoli'r ysgol i safle'r A497, mae dau fater technegol wedi codi ynglŷn â'r safle, ac mae gwaith wedi'i gomisiynu mewn ymateb i hynny, sydd yn mynd effeithio rhywfaint ar yr amserlen wreiddiol.

2.4 Addysg Ôl-16 yn Arfon

Er bod y pandemig wedi oedi'r prosiect yma yn dilyn cynnal cyfres o gyfarfodydd rhithwir gyda rhan-ddeiliaid yn nhymor yr Hydref 2020, rydym yn gobeithio gallu ailgydio'n y prosiect yn fuan yn 2022.

2.5 Cyflwr ac Addasrwydd

Mae effaith prisiau deunyddiau adeiladu yn sgil Covid a Brexit wedi effeithio ar ein gallu i wireddu rhai o'n cynlluniau i wella cyflwr ac addasu adeiladau rhai ysgolion dros y misoedd diwethaf. Mae'r Adran rŵan ar y cyd gyda'r Adran Tai ac Eiddo yn ail-edrych ar y cynlluniau hyn gan ystyried beth y gellir ei gyflawni'n ymarferol ar sail blaenoriaeth yn sgil gorfod cyfarch costau uwch gyda'r gyllideb sydd ar gael.

2.6 Gagendor Lles a Chyrhaeddiad

Mae'r gwaith o gefnogi llesiant plant a phobl ifanc dros y misoedd diwethaf wedi parhau i ganolbwyntio ar ymateb i heriau a sgil-ffeithiau'r pandemig. Ers i mi adrodd i chi ddiwethaf, rydym wedi sefydlu trefniadau prosiect traws-adrannol ar gyfer y ffrydiau gwaith sydd wedi eu blaenoriaethu gennym fel Cyngor. Mae rhai o'r ffrydiau gwaith hynny yn symud ymlaen yn dda, megis yr oeddrannau 0-5 ac 16-24, ynghyd â chefnogaeth i ddysgwyr gydag ADY a CH. Ers Medi 2020 mae pob ysgol yng Ngwynedd yn gweithredu *Rhaglen Cyflymu'r Dysgu* gydag arian gan Lywodraeth Cymru er mwyn ymateb i effaith y cyfnod clo ar les a chyrhaeddiad rhai grwpiau penodol o ddysgwyr 5-16 oed. Dros y misoedd nesaf, rwyf yn awyddus i dderbyn tystiolaeth gan yr Adran a'r gwasanaeth gwella ysgolion (GwE) ynglŷn â pha effaith y mae'r rhaglen a'r arian yma wedi ei gael ar les a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc.

2.7 Trawsnewid y ddarpariaeth ADY a CH

Ar hyn o bryd, mae'r prosiect yma'n canolbwyntio ar baratoi tuag at y Ddeddf Anghenion Dysgu a Thribiwnlys Addysg Cymru (2018). Daeth y Ddeddf hon yn weithredol ym Medi 2021, gyda rhai elfennau o'r Ddeddf wedi eu hoedi yn y flwyddyn gyntaf e.e. cyfnod ôl-16. O ganlyniad, yn ddiweddar mae'r gwasanaeth wedi bod yn canolbwyntio ar gynnig hyfforddiant, gweithdai a sesiynau galw i mewn i gynorthwyo'r wythnosau cyntaf o'r ddeddfwriaeth newydd yn dod i rym. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth ADY a Ch wedi bod yn ceisio argyhoeddi Llywodraeth Cymru'n gyson y bydd costau ychwanegol ynghlwm â gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd. Braf yw datgan bod Llywodraeth Cymru bellach yn cydnabod nad yw gweithredu'r ddeddfwriaeth yn gost niwtral, a'u bod yn edrych ar y costau ychwanegol tebygol ar hyn o bryd.

2.8 Strategaeth Addysg Ddigidol

Rwy'n hynod o falch o'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni drwy'r strategaeth addysg ddigidol a'r ffordd yr ydym ni'n blaenoriaethu addysg ein plant yma yng Ngwynedd. Mae ychydig dros £1.3m wedi ei fuddsoddi yn y rhwydwaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf. At hyn, mae nifer sylweddol o ddyfeisiadau wedi eu rhannu yn unol â'r strategaeth. Mae digon o *ipads* wedi eu rhannu i roi un i bob pedwar dysgwr yn y Cyfnod Sylfaen, gyda digon o *Chromebooks* wedi eu rhannu fel bod pob dysgwr o flwyddyn 3 i 6 yn cael dyfais yr un. Mae dyfeisiadau Windows 10 yn cael eu paratoi yn ogystal ar gyfer pob disgybl ym mlwyddyn 7, 10 ac 11. Bydd pob un o athrawon Gwynedd yn derbyn dyfais safonol drwy'r strategaeth dros y misoedd nesaf gyda'r gobaith y bydd hyn yn tanio dychymyg a sbarduno ymhellach ddyfeisgarwch ac effeithiolrwydd yr agweddau o ddysgu digidol ar draws y sectorau.

2.9 Cydweithio Meirionnydd

Mae'r cynnydd ar y prosiect yma wedi bod yn araf ac wedi ei effeithio yn sgil heriau amlwg y pandemig a phrysurdeb ysgolion uwchradd. Serch hynny, rydym wedi casglu barn penaethiaid a chynrychiolaeth o lywodraethwyr pob ysgol uwchradd ar yr heriau posib sydd yn eu hwynebu o ran darparu addysg uwchradd o ansawdd yn yr ardal, megis recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr. Mae bwriad rŵan i gylchredeg holiadur yn y flwyddyn newydd er mwyn ceisio canfod barn dysgwyr, staff, rhieni a phenaethiaid fydd yn llywio cyfeiriad y prosiect i'r dyfodol.

2.10 Hybu defnydd o'r Gymraeg ymysg Plant a Phobl Ifanc

Yn dilyn cyfnod estynedig o addysgu gartref, a'r pryder cenedlaethol a fynegwyd am effaith andwyol Covid ar safonau'r Gymraeg, rydym wedi casglu data drwy gyfrwng amrywiol holiaduron er mwyn cael gwell trosolwg o sgiliau iaith Gymraeg ein plant a'n pobl ifanc. Mae'r dystiolaeth o'r holiaduron yn dangos mai sgiliau llafaredd yw'r pryder mwyaf ar draws y sir, ac mae pob ysgol wedi mynd ati i lunio cynllun gweithredu mewn ymateb i'r sefyllfa. Mae bwriad ail-gyflwyno'r holiadur ar ddiwedd y flwyddyn addysgol er mwyn mesur effaith unrhyw weithredu.

3. PERFFORMIAD A MESURAU

- 3.1 Byddwn yn dymuno tynnu eich sylw at y materion canlynol, nad ydynt yn ymwneud â'r Prosiectau Blaenoriaeth, ond eu bod nhw'n derbyn sylw gan yr adran oherwydd eu bod yn cael effaith ar lesiant plant a phobl ifanc, neu ar berfformiad gwasanaethau.
- 3.2 Diogelu - Mae Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd yn flaenoriaeth allweddol i'r Adran a'r Cyngor, ac yn fwyfwy allweddol yn sgil y pandemig gyda nifer o ddysgwyr yn aros adref yn sgil gofynion hunan ynysu. Yn ddiweddar, mae'r Adran wedi creu pecyn hyfforddi newydd yn y Gymraeg ar gyfer Personau Dynodedig Amddiffyn Plant mewn ysgolion a chanolfannau addysg ar y cyd â Grŵp Diogelu Mewn Addysg Llywodraeth Cymru. Mae ysgolion Gwynedd hefyd wedi derbyn gwybodaeth am y Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru a gafodd eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn Ebrill 2020 ac mae staff allweddol yr Adran ac ysgolion Gwynedd wedi derbyn hyfforddiant sylfaenol ar y gweithdrefnau hynny.
- 3.3 Arlwyo a Glanhau - Mae'r gwasanaeth yma wedi bod yn allweddol drwy gydol y pandemig er mwyn sicrhau awyrgylch diogel i ddysgwyr a staff yn ein hysgolion, yn ogystal â sicrhau darpariaeth cinio ysgol. Mae heriau staffio yng nghyd-destun salwch tymor hir, effeithiau Covid ac anawsterau recriwtio yn effeithio'n ddyddiol ar y gwasanaeth yma. Mewn ymateb i hyn, mae'r gwasanaeth wedi manteisio ar gynllun Kickstart, Llywodraeth Cymru i gynnig lleoliadau gwaith o fis Ionawr ymlaen ar gyfer pobl oedran 16-24 sydd yn derbyn Credyd Cynhwysol ac sydd mewn risg o ddiweithdra tymor hir. Rwyf hefyd yn croesawu'n fawr y cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru eu bod am sicrhau cinio am ddim i holl ddisgyblion cynradd ar draws Cymru. Yn sgil y cyhoeddiad yma, byddaf yn gofyn i'r Adran gychwyn ar y gwaith o ystyried anghenion y gwasanaeth er mwyn gallu gwireddu'r ymrwymiad yma gan Lywodraeth Cymru yn amserol.
- 3.4 Canolfannau Iaith – Dw i'n hynod o falch fod y Cabinet wedi cymeradwyo gweledigaeth newydd ar gyfer rhoi'r dysgwr yn ganolog wrth eu cefnogi hwy a newydd-ddyfodiaid y sir i gaffael y Gymraeg. Mae'r buddsoddiad cyfalaf o £1.1 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn symud yn ei flaen, ac yn sgil proses dendro, mae'r gwaith ar safleoedd Bangor, Tywyn a Phorthmadog ar fin cychwyn. Hefyd, cawsom gadarnhad yn ddiweddar fod yr Adran wedi bod yn llwyddiannus yn ei gais grant o £154,000 i wireddu dau brosiect i gyfoesi'r ddarpariaeth drochi i adlewyrchu gofynion Cwricwlwm i Gymru a'r Strategaeth Addysg Ddigidol, ynghyd ag arfogi ymarferwyr ysgolion Gwynedd yn egwyddorion ac arferion trochi iaith.
- 3.5 O ran mesurau'r Adran, mae ein hunedau gwasanaeth wedi derbyn sesiwn Ffordd Gwynedd gan y Prif Weithredwr ar 13 Rhagfyr 2021, er mwyn sicrhau bod pwrpas a mesurau pob

uned wasanaeth yn addas ac ystyrllon, ac felly byddaf yn adrodd yn fanylach ar fesurau'r Adran y tro nesaf.

- 3.6 Rhaid cydnabod mai crynodeb yn unig a geir yn yr adroddiad o holl waith yr Adran a'r ysgolion dros y misoedd diwethaf, ac o ganlyniad hoffwn gydnabod a nodi fy ngwerthfawrogiad i'r gwaith arwrol sydd wedi bod yn mynd rhagddo yn yr Adran ac yn ein hysgolion mewn ymateb i'r pandemig gyda'r ffocws bob amser ar addysg ein plant ynghyd â diogelwch, iechyd a lles ein holl ddysgwyr a staff.

4. SEFYLLFA ARIANNOL / ARBEDION

- 4.1 Bu i'r Adran Addysg danwario £100k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2020/21. Ar sail adolygiad diwedd Tachwedd 2021 rhagwelir y bydd yr Adran yn tanwario £54,036 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol eleni, sydd yn gyfuniad o danwariant un-tro ar nifer o benawdau'r gyllideb sydd yn cael ei leihau gan orwariant ar benawdau megis Cludiant a gwasanaethau Arlwy a Glanhau Ysgolion.
- 4.2 Er bod sefyllfa eleni yn ymddangos yn ffafriol gyda nifer o ffactorau un-tro yn helpu'r sefyllfa ariannol, mae siawns y bydd gorwariant sylweddol o dan rai penawdau yn ddisgwyliedig yn 2022-23, ond na fydd yna danwariant un-tro i liniaru'r effaith. Y prif bennawd dan sylw yw'r gyllideb Cludiant Disgyblion. Mae'r Adran eisoes yn adolygu'r gwariant gan obeithio lleihau'r costau yn y tymor hir. Mae bid am adnoddau ychwanegol wedi ei gyflwyno ar gyfer y cylch cyllideb 2022-23, gan nad yw'n debygol y bydd modd lleihau'r costau yn y tymor byr.
- 4.3 Mae gan yr Adran Addysg werth £65k o arbedion ar gyfer 2021-22 sydd eisoes wedi eu gwireddu.

5. SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL

i.) Y Swyddog Monitro:

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

ii.) Y Pennaeth Cyllid:

"Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn cyfleu darlun teg o sefyllfa ariannol yr Adran Addysg, gan gynnwys y datblygiadau sylweddol a amlinellir yn rhan 2 o'r adroddiad. Mae'r Cyngor wedi derbyn grant Rhaglen Cyflymu'r Dysgu yn 2020/21 a 2021/22 i'r pwrpas amlinellir yn 2.6. Rwyf yn hapus i gadarnhau fod yr holl gynlluniau arbedion ar gyfer 2021/22 eisoes wedi eu gwireddu."

"Nodaf fod paragraff 4.2 o'r adroddiad yn cyfeirio at gyflwyno bid ariannol. Bydd yr holl fidiau sydd wedi eu cyflwyno yn cael sylw dyledus yn ôl y drefn briodol."

